# CYNLLUNIAU MARCIO TAG

## ASTUDIO'R CYFRYNGAU
## UG/UWCH

### IONAWR 2014

© WJEC CBAC Cyf.

**RHAGARWEINIAD**

Y cynlluniau marcio a ganlyn yw'r rhai a ddefnyddiwyd gan CBAC ar gyfer arholiad Ionawr 2014 TAG ASTUDIO'R CYFRYNGAU.  Penderfynwyd arnynt yn derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynadleddau arholwyr gan yr holl arholwyr oedd yn ymwneud â'r asesiad. Cynhaliwyd y cynadleddau yn fuan ar ôl sefyll y papurau fel y gellid cyfeirio at yr amrediad llawn o ymatebion ymgeiswyr, gyda sgriptiau wedi'u llungopïo yn sail i'r drafodaeth.  Amcan y cynadleddau oedd sicrhau bod y cynlluniau marcio wedi'u dehongli a'u cymhwyso yn yr un modd gan yr holl arholwyr.

Gobeithir y bydd y wybodaeth hon o gymorth i ganolfannau ond cydnabyddir ar yr un pryd y gallai fod gan athrawon safbwyntiau gwahanol ynglŷn â manylion neu ddehongli gan nad ydynt wedi bod yn rhan o'r gynhadledd farcio.

Mae'n flin gan CBAC ond nid oes modd iddo ymgymryd ag unrhyw drafodaeth na gohebiaeth am y cynlluniau marcio hyn.


| | Page |
|---|---|
| MS1 | 1 |
| MS4 | 6 |


© WJEC CBAC Cyf.

# Astudio'r Cyfryngau Uwch Gyfrannol/Uwch
# MS1: Cynrychioliadau ac Ymatebion

## MS1: Cynllun Marcio Generig (Cwestiwn 1)

***Cwestiwn 1***

| Lefel | ***AA2: Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth wrth ddadansoddi cynhyrchion a phrosesau'r cyfryngau, ac wrth werthuso eu gwaith ymarferol eu hunain, i ddangos sut caiff ystyron ac ymatebion eu creu.*** |
|---|---|
| **Lefel 1: 0-15** | Golwg arwynebol ar y testunau ar lefel synnwyr cyffredin. Diffyg canolbwyntio ar y testun. Disgrifiadol yn hytrach na dadansoddol. Rhywfaint o honni heb ei ategu neu amherthnasedd. Diffyg rhuglder. Heb fod wedi'i seilio ar wybodaeth neu ddealltwriaeth o'r cyfryngau. |
| **Lefel 2: 16-23**<br><br>**(16-19)** | Ar ben isaf y lefel hon, bydd teimlad sylfaenol o sut caiff ystyron eu creu er y gall fod rhywfaint o ymgais i ddadansoddi nodweddion allweddol. Rhywfaint o adnabyddiaeth o gynodiadau ond tuedd i orfanylu ar y syml.<br><br>Disgrifiadol. |
| **(20-23)** | Ar ben uchaf y lefel hon, bydd ymgeiswyr yn dangos dealltwriaeth o destunau cyfryngol a'u confensiynau ynghyd â gallu i ddadansoddi. Adnabyddiaeth o gynodiadau a chynrychioliadau ond heb ei datblygu. Dealltwriaeth o sut mae testunau'n creu ystyron. Tuedd i ddisgrifio. |
| **Lefel 3: 24-31**<br><br>**(24-27)** | Ar ben isaf y lefel hon, bydd dealltwriaeth gadarn o destunau cyfryngol a'u confensiynau ynghyd â gallu cadarn i ddadansoddi. Amgyffrediad cadarn o gynodiadau. Ar y lefel hon, gwneir pwyntiau, gan ddefnyddio termau priodol y cyfryngau. Safbwynt unigol yn dechrau dod i'r amlwg. |
| **(28-31)** | Ar ben uchaf y lefel, bydd ymgeiswyr yn dangos dealltwriaeth dda o destunau a chonfensiynau cyfryngol ynghyd â gallu da i ddadansoddi. Defnydd hyderus o dermau'r cyfryngau a dadl wedi'i strwythuro'n dda, o bosibl yn tynnu ar wahanol ddulliau. Archwilio syniadau i roi dehongliad dilys o'r testun wedi'i ategu'n briodol. |
| **Lefel 4: 32-40** | Dadansoddi soffistigedig a chraff, yn dangos dealltwriaeth drylwyr o ddangosyddion a thechnegau allweddol. Mynegir syniadau cymhleth yn gydlynol. Ymwybyddiaeth o natur amlystyr testunau gydag adnabyddiaeth bosibl o'r ideolegol.  Tystiolaeth o drosolwg. Defnydd wedi'i ddatblygu'n dda o dermau'r cyfryngau. |

© WJEC CBAC Cyf.

## MS1: Cynllun marcio sy'n benodol i'r cwestiwn

Dyfernir marciau i ymgeiswyr ar gyfer pob un o'r amcanion asesu. Mae angen i farcwyr sicrhau bod ymgeiswyr yn cael eu gosod o fewn y lefelau cywir ac yn cael marciau yn unol â hynny.

Mae'r cynllun marcio sy'n benodol i'r cwestiwn yn darparu pwyntiau y gall ymgeiswyr gyfeirio atynt yn eu hatebion. Rhaid ei ***ddefnyddio ar y cyd â'r grid perthnasol.*** Atgoffir arholwyr, fodd bynnag, nad yw'n rhestr ddiffiniol ac y dylent fod â meddwl agored a mynd i'r afael â'r hyn y mae'r ymgeiswyr wedi'i ysgrifennu. ***Rhaid*** i atebion perthnasol, sy'n ymdrin â deunydd nad yw wedi'i gynnwys isod, gael eu gwobrwyo ar sail teilyngdod. Mae'n debygol y bydd amrywiaeth o ddulliau o ymdrin â Chwestiynau 2 a 3 ac mae canolfannau yn debygol o fod wedi astudio amrywiaeth o enghreifftiau gwahanol. Mae hynny'n gwbl dderbyniol a rhaid ystyried pob ateb yn unigol.

**Astudiwch y rhaghysbyseb am y gêm fideo *Halo 4* a gafodd ei rhyddhau ym mis Mai 2012. Roedd y rhaghysbyseb hon yn rhan o ymgyrch farchnata ~~a~~ oedd yn cynnwys actorion yn chwarae rolau'r cymeriadau wedi'u cynhyrchu gan gyfrifiadur sydd yn *Halo 4*.**

**Q.1 Dadansoddwch y darn gan roi sylwadau am y canlynol:**

- **codau gweledol**
- **codau technegol a chlywedol**
- **naratif.** **[40]**

***Codau gweledol***

- Defnyddio lliwiau tawel ac effaith lliwiau tawel
- Eiconograffeg yn gysylltiedig â rhyfel/ffantasi
- Cymeriad eiconig adnabyddadwy
- Dillad a golwg gorfforol
- Ystum ac iaith y corff yn gysylltiedig â gwrthdaro
- Lleoliad a chefndir
- Graffigwaith ar-sgrin.

***Codau technegol a chlywedol***

- Symudiad camerâu – lleoli'r gynulleidfa drwy saethiadau
- Amrywiaeth o saethiadau – lluniau o'r dorf, agosluniau o gymeriadau mewn sefyllfaoedd dwys, awyrluniau o'r lleoliad, cipiau symudol ar gyfer cynnwys y gynulleidfa
- Onglau camerâu – uchel i awgrymu hawdd eu brifo ac isel i awgrymu goruchafiaeth – e.e. Halo
- Defnyddio arafu lluniau
- Golygu i awgrymu cyflymder a thensiwn a drama
- Cerddoriaeth ddramatig
- Effeithiau sain o frwydr
- Trosleisio – defnyddio gormodiaith, sefydlu naratif o wrthdaro.

***Naratif***

- Confensiynau *genre*
- 'Stori' taith cwest i oroesi
- Defnyddio arafu lluniau i wella naratif – trin amser a gofod
- Codau mynd (*action*)
- Strwythur naratif – aflonyddwch, cwest, gwrthdaro
- Rôl/swyddogaeth cymeriadau o fewn y naratif
- Defnyddio pobl go iawn yn hytrach na *CGI*.

© WJEC CBAC Cyf.

**Q.2 (a) Nodwch *ddau* gynrychioliad gwahanol o rywedd yn y rhaghysbyseb hon. [4]**

Gall awgrymiadau gynnwys:

- Menyw gref
- Dyn cryf
- Menyw hawdd ei brifo sydd wedi'i diffinio gan berthynas
- Dyn hawdd ei frifo
- Dyn ifanc 'cyndyn'.

Ar gyfer **pob** cynrychioliad a nodir:

| | |
|---|---|
| **Lefel 1 (1)** | Yn nodi enghraifft gredadwy |
| **Lefel 2 (2)** | Yn disgrifio pob enghraifft yn fwy manwl |

**(b) Dewiswch *un* o'r cynrychioliadau hyn o rywedd. Archwiliwch sut mae wedi cael ei lunio yn y rhaghysbyseb hon. [10]**

Y disgwyl yw y bydd ymgeiswyr yn datblygu eu pwyntiau yn fwy manwl gan archwilio:

- sut y defnyddir iaith a deialog i awgrymu agweddau ar rywedd
- eiconograffeg: dillad, celfi ayb.
- sut y defnyddir codau technegol i lunio'r cynrychioliad
- herio rolau disgwyliedig e.e., menyw'n cael ei galw'n 'syr', menywod mewn rolau dynion traddodiadol
- golygu i ddangos rôl/swyddogaeth cymeriad.

| | |
|---|---|
| **Lefel 1: 0 – 2** | Bydd y dulliau'n arwynebol ac yn dangos dealltwriaeth sylfaenol iawn yn unig o sut mae rhywedd wedi cael ei llunio. |
| **Lefel 2: 3 - 4** | Bydd yr ateb yn sylfaenol ond yn dangos dealltwriaeth berthnasol o sut mae rhywedd wedi cael ei llunio. |
| **Lefel 3: 5 – 7** | Dealltwriaeth gydlynol, gadarn o sut mae rhywedd wedi cael ei llunio. (5-6).<br>……………………………………………………………………………………<br>Bydd dealltwriaeth dda yn cael ei dangos ar gyfer rhan uchaf y lefel hon (7). |
| **Lefel 4: 8 - 10** | Dealltwriaeth soffistigedig o sut mae rhywedd wedi cael ei llunio. |

© WJEC CBAC Cyf.

**(c)** **Gan gyfeirio at *eich enghreifftiau manwl eich hun*, archwiliwch gynrychioliadau o fenywod yn y cyfryngau heddiw.** **[16]**

- Rhaid i ymgeiswyr ddefnyddio 2/3 enghraifft benodol o sut mae testunau cyfryngol yn cynrychioli menywod a'u dadansoddi nhw yn fanwl gan ganolbwyntio ar gysyniad cynrychioliad.
- Mae disgwyl y bydd ymgeiswyr sy'n cyrraedd y lefelau uchaf yn dangos dealltwriaeth o gysyniad cynrychioliad ac yn gallu angori eu hengreifftiau dewisol o ran cyd-destun a phwrpas.
- Dylai'r enghreifftiau dewisol gael eu dadansoddi â thipyn o fanylder a rhaid i'r ymgeiswyr mwy galluog fynd i'r afael â nhw ar lefel fwy soffistigedig sy'n mynd y tu hwnt i ddisgrifiadau a honiadau syml o gadarnhaol a negyddol.
- Rhaid i'r enghreifftiau a ddefnyddir fod yn gyfoes er mwyn adlewyrchu cynrychioliad menywod yn y cyfryngau heddiw.

| **Lefel** | ***AA1: Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o gysyniadau, cyd-destunau a dadleuon beirniadol y cyfryngau.*** |
|---|---|
| **Lefel 1: 0-5** | Dadl arwynebol. Yn dibynnu'n drwm ar ddisgrifio. Diffyg enghreifftiau priodol. Fawr ddim tystiolaeth o ddealltwriaeth o gysyniad cynrychioliad. |
| **Lefel 2: 6-8**<br>**(6)**<br><br>**(7-8)** | Ymgais sylfaenol i fynd i'r afael â chysyniadau a dadleuon y cyfryngau. Golwg syml ar destunau. Diffyg dyfnder a datblygiad.<br>…………………………………………………………………………………….<br>Teimlad o gysyniadau a dadleuon y cyfryngau. Gall y dulliau fod yn rhy ddisgrifiadol. Gall yr ateb fod wedi'i gyfyngu i'r deunydd ysgogi heb ddim enghreifftiau eraill. Ni chyfeirir at enghreifftiau penodol. |
| **Lefel 3: 9-12**<br>**(9-10)**<br><br>**(11-12)** | Dealltwriaeth gadarn o faterion sy'n ymwneud â chynrychioliad. Ymgais cadarn i fynd i'r afael â chysyniadau a dadleuon y cyfryngau gan ddefnyddio enghreifftiau priodol. Bydd syniadau gweddol gymhleth yn cael eu mynegi'n glir gyda rhywfaint o dystiolaeth o ddehongliad personol.<br>…………………………………………………………………………………….<br>Dealltwriaeth dda o faterion sy'n ymwneud â chynrychioliad. Archwiliad da o gysyniadau a dadleuon perthnasol y cyfryngau gan ddefnyddio amrywiaeth o enghreifftiau priodol. Yn debygol o dynnu ar wahanol ddulliau. |
| **Lefel 4: 13-16** | Dealltwriaeth soffistigedig o faterion sy'n ymwneud â chynrychioliad wedi'u cysylltu â meddwl a damcaniaethau cyfredol. Archwiliad hyderus o gysyniadau a dadleuon y cyfryngau. Teimlad da o faterion a dadleuon ynghylch amrywiaeth eang o destunau cyfryngol. |

© WJEC CBAC Cyf.

**Q.3 Gan gyfeirio at *eich enghreifftiau manwl eich hun*, archwiliwch pam mae cynulleidfaoedd yn ymateb yn wahanol i'r un testun cyfryngol. [30]**

Dylai ymgeiswyr drafod pam mae cynulleidfaoedd yn ymateb yn wahanol i'r un testunau cyfryngol. Gall pwyntiau gynnwys:

- oedran
- rhywedd
- ethnigrwydd
- diwylliant
- lleoli gan y testun
- lluniad y testun
- sefyllfa
- profiad
- damcaniaethau i ategu pwyntiau (Hall – dehongliadau dewisol, dehongliadau wedi'u trafod, dehongliadau gwrthwynebol).

Rhaid i'r pwyntiau hyn gael eu trafod gan gyfeirio at 2/3 enghraifft fanwl.

| **Lefel** | ***AA1: Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o gysyniadau, cyd-destunau a dadleuon beirniadol y cyfryngau.*** |
|---|---|
| **Lefel 1: 0-11** | Dadl arwynebol. Yn dibynnu'n drwm ar ddisgrifio. Diffyg enghreifftiau priodol. Fawr ddim neu ddim dealltwriaeth o gysyniad cynulleidfa. |
| **Lefel 2: 12-17**<br>**(12-14)**<br><br>**(15-17)** | Dealltwriaeth sylfaenol o gysyniad cynulleidfa/defnyddwyr. Disgrifiadol ac wedi'i symleiddio'n ormodol.<br>………………………………………………………………………………….<br>Dealltwriaeth o gysyniad cynulleidfa/defnyddwyr yn dod i'r golwg ond heb ei datblygu. Gall fod cyfeiriadau ymhlyg at ddadleuon beirniadol ynghylch cynulleidfaoedd. Does dim cyfeirio at enghreifftiau penodol i ategu pwyntiau. |
| **Lefel 3: 18-23**<br>**(18-20)**<br><br>**(21-23)** | Gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn o gysyniad cynulleidfa/defnyddwyr. Defnyddir enghreifftiau priodol. Bydd syniadau gweddol gymhleth yn cael eu mynegi'n glir gyda rhywfaint o dystiolaeth o ddehongliad.<br>…………………………………………………………………………………..<br>Gwybodaeth a dealltwriaeth dda o gysyniad cynulleidfa/defnyddwyr. Archwilio da gan ddefnyddio amrywiaeth o enghreifftiau priodol. Ymwybyddiaeth o ddamcaniaethau perthnasol, dadleuon newidiol, safbwyntiau a dulliau gwahanol. |
| **Lefel 4: 24-30** | Gwybodaeth a dealltwriaeth soffistigedig o gysyniad cynulleidfa/ddefnyddwyr. Mae'n tynnu ar faterion a dadleuon gan ddefnyddio enghreifftiau sydd wedi'u datblygu ac sy'n berthnasol ac mae'n mynd i'r afael â materion damcaniaethol perthnasol. |

© WJEC CBAC Cyf.

Gan na ddefnyddir ffracsiynau, noder mai *canllawiau* yn unig yw'r rhifau a ddefnyddir i gyrraedd lefelau ar gyfer y ddau Amcan Asesu a'u bod wedi'u rhoi mewn cromfachau sgwâr […]. Dylid penderfynu ar **farc terfynol** ymgeisydd **o fewn lefel** ar sail y **cyfanswm allan o 30** fel y nodir isod.

Gweler y grid marcio generig drosodd.

© WJEC CBAC Cyf.

| Lefel/Marciau | **AA1**<br>**Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o gysyniadau, cyd-destunau a thrafodaethau beirniadol y cyfryngau** | **AA2**<br>**Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth wrth ddadansoddi cynhyrchion a phrosesau'r cyfryngau, ac wrth werthuso eu gwaith ymarferol eu hunain, i ddangos sut caiff ystyron ac ymatebion eu creu** |
|---|---|---|
| **Lefel 1: 0-11** | Ymateb sylfaenol, synnwyr cyffredin. Dealltwriaeth arwynebol o'r testunau a astudiwyd a'u cyd-destunau o ran y diwydiant a'r/neu'r gynulleidfa. Mae manylion amherthnasol yn nodweddu'r ymateb.<br>[0-7] | Bydd y dadansoddiad yn wan heb fawr o ddyfnder, yn tueddu i fod yn gyffredinol heb unrhyw enghreifftiau i'w ategu.<br>[0-3] |
| **Lefel 2: 12-17**<br>**(12-14)** | Ar ben isaf y lefel hon, bydd dechreuadau ymateb perthnasol ond bydd diffyg canolbwynt. Bydd gwybodaeth sylfaenol o'u cyd-destunau o ran y diwydiant a'r/neu'r gynulleidfa. | Ar ben isaf y lefel hon, bydd dadansoddiad sylfaenol ond anghyson o'r berthynas rhwng y testun, y diwydiant a'r gynulleidfa (fel y bo'n briodol). Bydd unrhyw ddadansoddi yn debygol o fod wedi'i fynegi'n syml gan ddangos dealltwriaeth sylfaenol o'r modd y caiff ystyron ac ymatebion eu creu. |
| **(15-17)** | Ar ben uchaf y lefel hon, bydd safbwynt yn dod i'r amlwg a gall enghreifftiau gael eu defnyddio'n fwy perthnasol. Mae atebion yn debygol o fod yn fwy disgrifiadol.<br>[8-11] | Ar ben uchaf y lefel hon, bydd y dadansoddiad o'r berthynas rhwng y testun, y diwydiant a'r gynulleidfa (fel y bo'n briodol) yn dueddol o fod yn ddisgrifiadol. Bydd dealltwriaeth o'r modd y caiff ystyron ac ymatebion eu creu yn amlwg.<br>[4-5] |
| **Lefel 3: 18-23**<br>**(18-20)** | Ar ben isaf y lefel hon, bydd ymateb cadarn sy'n dangos gwybodaeth a/neu ddealltwriaeth o'r testunau a'u cyd-destunau o ran y diwydiant a'r gynulleidfa. | Ar ben isaf y lefel hon, bydd dadansoddiad cadarn o'r berthynas rhwng y testun, y diwydiant a'r gynulleidfa (fel y bo'n briodol). Bydd dealltwriaeth gadarn o'r modd y caiff ystyron ac ymatebion eu creu yn amlwg. |
| **(21-23)** | Ar ben uchaf y lefel hon, dangosir dealltwriaeth dda o destunau, eu cyd-destunau o ran y diwydiant a'r/neu'r gynulleidfa drwy enghreifftiau perthnasol a manwl ynghyd â gwneud defnydd priodol o dermau perthnasol y cyfryngau.<br>[12-15] | Ar ben uchaf y lefel hon, bydd dealltwriaeth dda o'r modd y caiff ystyron ac ymatebion eu creu.<br>[6-7] |
| **Lefel 4: 24-30**<br>**(24-26)** | Ar ben isaf y lefel hon, bydd dealltwriaeth dda iawn o destunau cyfryngol, eu cyd-destunau o ran y diwydiant a'r/neu'r gynulleidfa. Bydd yr enghreifftiau a ddefnyddir yn fanwl ac yn dangos safbwynt. Gwneir defnydd priodol o dermau perthnasol y cyfryngau. | Ar ben isaf y lefel hon, bydd dadansoddiad da iawn o'r berthynas rhwng y testun, y diwydiant a'r gynulleidfa (fel y bo'n briodol). Felly hefyd, bydd dealltwriaeth dda iawn o'r modd y caiff ystyron ac ymatebion eu creu. |
| **(27-30)** | Ar ben uchaf y lefel hon, bydd dealltwriaeth soffistigedig o destunau cyfryngol, eu cyd-destunau o ran y diwydiant a'r/neu'r gynulleidfa. Bydd yr enghreifftiau a ddefnyddir yn fanwl, yn gydlynol ac yn arwain at safbwynt wedi'i sefydlu'n dda. Gwneir defnydd priodol iawn o dermau perthnasol y cyfryngau.<br>[16-20] | Ar ben uchaf y lefel hon, bydd dadansoddiad soffistigedig o'r berthynas rhwng y testun, y diwydiant a'r gynulleidfa (fel y bo'n briodol). Felly hefyd, bydd dealltwriaeth soffistigedig o'r modd y caiff ystyron ac ymatebion eu creu.<br>[8-10] |

© WJEC CBAC Cyf.

**MS4: Cynllun marcio sy'n benodol i'r cwestiwn**

**Noder**: ***Ar gyfer pob cwestiwn, bydd yr atebion yn ddibynnol ar y diwydiant a ddewisir.***

Bydd canolfannau wedi astudio diwydiannau gwahanol a defnyddio amrywiaeth o brif destunau gwahanol gyda'u hymgeiswyr. Cyfrifoldeb yr arholwr yw sicrhau bod yr ymgeiswyr yn gywir o ran y wybodaeth ffeithiol a ddarparant ond yn cadw meddwl agored ynghylch y dulliau gwahanol y gall ymgeiswyr eu defnyddio i ymdrin â'r cwestiynau. Nid oes atebion cywir nac anghywir (ar wahân i fanylion ffeithiol) ac mae'n debygol y bydd amrywiaeth o atebion i'r cwestiynau – mae hynny'n gwbl dderbyniol a rhaid ystyried pob ateb yn unigol. Disgwylir i ymgeiswyr gyfeirio at **dri** thestun ym mhob ateb ond nid oes disgwyl iddynt ymdrin yn gyfartal â'r testunau y cyfeirir atynt. *Os na fyddan nhw'n cyfeirio at dri thestun yn eu hateb gweler y nodyn isod ynghylch torri cyfarwyddyd.* Efallai na fydd yr ymgeiswyr gwannach yn cyfeirio at dri thestun ac efallai y bydd rhai ymgeiswyr yn cyfeirio at fwy na thri – bydd angen marcio'r atebion hyn ar sail haeddiant a rhoddir arweiniad pellach ynghylch yr atebion hyn yng nghynhadledd yr arholwyr.

Dyfernir marciau i ymgeiswyr ar gyfer pob un o'r amcanion asesu. Mae angen i arholwyr sicrhau bod ymgeiswyr yn cael eu gosod o fewn y lefelau cywir ac yn cael marciau yn unol â hynny.

Mae'r cynllun marcio hwn sy'n benodol i'r cwestiwn yn cynnig pwyntiau y gall ymgeiswyr eu cynnwys yn eu hatebion. Rhaid ei **ddefnyddio ar y cyd â'r grid uchod*.*** Atgoffir arholwyr, fodd bynnag, nad yw'n rhestr ddiffiniol ac y dylent fod â meddwl agored a mynd i'r afael â'r hyn y mae'r ymgeiswyr wedi'i ysgrifennu. **Rhaid** i atebion perthnasol, sy'n ymdrin â deunydd nad yw wedi'i gynnwys isod, gael eu gwobrwyo ar sail haeddiant. Gan y bydd canolfannau wedi dewis amrywiaeth eang o destunau i'w hastudio, mae'n debygol y bydd amrywiaeth o ddulliau o ymdrin â'r cwestiynau. Mae hynny'n gwbl dderbyniol a rhaid ystyried pob ateb yn unigol.

**Torri Cyfarwyddyd**

Mae'n ofyniad ar gyfer yr uned hon bod ymgeiswyr yn cyfeirio at **dri** phrif destun ym mhob un o'u hatebion. Os bydd ymgeiswyr yn cyfeirio at **lai** na thri testun, gwneir yr addasiadau canlynol:

| | |
|---|---|
| **Cyfeirio at ddau destun** | - **3** |
| **Cyfeirio at un testun neu ddim testun** | - **5** |

Bydd y sylwadau sy'n cyfiawnhau'r marc ar ddiwedd yr ateb yn dangos yr addasiad, bydd clawr blaen y sgript yn dangos hynny hefyd.

© WJEC CBAC Cyf.

## ADRAN A: TESTUN

*Atebwch* **un** *cwestiwn o'r adran hon.*

**A1. Archwiliwch sut mae'r cynrychioliadau allweddol yn eich tri phrif destun wedi cael eu llunio. [30]**

Noder: mae'r cwestiwn hwn yn gofyn am gynrychioliadau **allweddol** – gan ganiatáu i'r ymgeiswyr adnabod y rhain. Edrychwch am gysondeb yn y drafodaeth a dealltwriaeth glir o'r broses o *ddethol* a *llunio.* Gall yr ymatebion gynnwys cyfeiriadau at rai o'r pwyntiau canlynol:

- Rhywedd – ymddangosiad, codau gwisg, cymeriad, agweddau, stereoteipiau, atgyfnerthu/herio.
- Oedran – nodweddion nodweddiadol, portreadau negyddol o ieuenctid, delweddau hŷn ystrydebol; mathau heriol.
- Ethnigrwydd – ymddangosiad, agweddau, tybiaethau ystrydebol, atgyfnerthu, negatifedd, nodweddion cadarnhaol.
- Hunaniaeth Genedlaethol – ystrydebol, codau cyfeiriadol; acenion, ystumiau.
- Materion – arwyddwyr, cynodiadau, ymdriniaeth
- Digwyddiadau – ymdriniaeth yn y newyddion.
- Cysylltiadau â phersbectifau damcaniaethol e.e. Mulvey, Alvarado, Gauntlett ayb (a'u defnyddio mewn ffordd berthnasol!)

**A2. Archwiliwch sut mae naratif yn cael ei lunio yn eich tri phrif destun. [30]**

Efallai y bydd yr ymgeiswyr yn ymateb i'r cwestiwn hwn trwy drafod damcaniaeth naratif – mae hyn yn dderbyniol ond dylid cymhwyso'r ddamcaniaeth yn gywir i'r testunau sy'n cael eu dethol. Gall ymgeiswyr eraill drafod strwythur a ffurf y stori a chyfuno hynny â thrafodaeth o godau naratif. Eto, mae hyn yn dderbyniol. Gellir cyfeirio at y canlynol:

- Propp a naratif sy'n cael ei yrru gan gymeriad.Gall ymgeiswyr ar y graddau is roi rhestr syml a chyfateb rolau cymeriadau. Efallai y bydd ymgeiswyr ar y graddau uwch yn herio neu'n defnyddio'r ddamcaniaeth i drafod pwysigrwydd cymeriadau ar lefel fwy soffistigedig.
- Todorov a naratifau sy'n cael eu gyrru gan weithredoedd: gall ymgeiswyr ar y graddau is gynnig fformiwla sy'n syml (ond yn ddilys). Gall ymgeiswyr ar y graddau uwch gynnig trafodaeth fanylach am y ddamcaniaeth hon tu hwnt i'w ffurf symlaf.
- Levi-Strauss a chyferbyniadau deuaidd: gall ymgeiswyr ar y graddau is adnabod yn unig tra gallai ymgeiswyr ar y graddau uwch drafod y syniad o lunio naratif yn gysylltiedig â chyferbyniadau.
- Strwythurau naratif llinol, lluosog, dilyniannol, ymblethedig.
- Defnyddio ôl-fflachiau, fformatau aflinol, naratifau cylchol ayb
- Codau naratif – er enghraifft technegol, awdio, enigmatig, symbolaidd, cyfeiriadol, gweithredoedd – a sut mae'r rhain yn cael eu defnyddio i helpu i lunio naratif.

© WJEC CBAC Cyf.

## ADRAN B: DIWYDIANT A CHYNULLEIDFA

*Atebwch* **ddau** *gwestiwn o'r adran hon,* gan ddefnyddio diwydiant cyfryngau gwahanol ar gyfer pob un.

**B1. Archwiliwch y defnydd sy'n cael ei wneud o dechnolegau digidol yn eich diwydiant dewisol. Cyfeiriwch at eich tri phrif destun. [30]**

Isod mae rhai pwyntiau generig y gallai ymgeiswyr eu gwneud ar gyfer pob un o'r diwydiannau ond, yn gyffredinol, bydd atebion yn dibynnu ar y testunau a astudiwyd. Ni fwriedir i'r rhestri fod yn rhagnodol.

Gall trafod technolegau digidol gynnwys rhai neu bob un o'r canlynol:

- Defnyddio technolegau digidol wrth gynhyrchu
- Defnyddio technolegau digidol wrth ddosbarthu (a fydd yn cynnwys defnyddio gwefannau a chyfryngau cymdeithasol wrth farchnata, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ac fel llwyfan ychwanegol i gyrchu testunau'r cyfryngau)
- Defnyddio technolegau digidol wrth arddangos (a fydd yn cynnwys y gwahanol lwyfannau y gellir cyrchu testunau'r cyfryngau arnyn nhw)
- Efallai bydd atebion Lefel 4 soffistigedig yn trafod goblygiadau cyfryngau digidol cydgyfeiriedig a'u cyrhaeddiad byd-eang posibl.

Mae'r tabl isod yn dangos rhai pwyntiau generig y gallai ymgeiswyr eu gwneud – ni fwriedir i'r rhestr hon fod yn rhagnodol.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **TELEDU:**<br>Cynhyrchu – e.e. camerâu, golygu, defnyddio graffeg ayb.<br>Marchnata: e.e. defnyddio'r rhyngrwyd, cyfryngau cymdeithasol<br>Dosbarthu: ar y rhyngrwyd, iplayer, yn ôl y galw ayb. | **RADIO:**<br>Technegau cynhyrchu<br>Dosbarthu/gwrando – fformatau digidol<br>Gorsafoedd ar-lein | **FFILM:**<br>Cynhyrchu e.e. camera, golygu, cgi, sgrin werdd, ayb<br>Dosbarthu/arddangos – fformatau gwylio, ar-lein<br>Marchnata – defnyddio cyfryngau cymdeithasol, gwefannau | **CERDDORIAETH:**<br>Technegau cynhyrchu.<br>Dosbarthu.<br>Defnyddio cyfryngau cymdeithasol – twitter ayb.<br>Marchnata – trwy wefan, youtube.<br>Fformatau gwrando |
| **PAPURAU NEWYDD:**<br>Cynhyrchu: fformatau digidol<br>Dosbarthu – e.e. ar-lein<br>Defnyddio cyfryngau cymdeithasol – e.e. twitter | **CYLCHGRONAU:**<br>Dulliau cynhyrchu<br>Cylchgronau ar-lein<br>Darllenwyr Q<br>Cysylltau ar-lein a chyfryngau cymdeithasol<br>Fformatau darllenydd | **HYSBYSEBU:**<br>Technegau argraffu.<br>Dosbarthu trwy'r we, cyfryngau cymdeithasol ayb<br>Technegau cynhyrchu | **GEMAU CYFRIFIADUR:**<br>Technegau cynhyrchu.<br>Fformatau.<br>Gemau ar-lein.<br>Defnyddio cyfryngau cymdeithasol |

**B2. Sut mae eich diwydiant dewisol yn cael ei reoleiddio? Cyfeiriwch at eich tri phrif destun. [30]**

Isod mae rhai pwyntiau generig y gallai ymgeiswyr eu gwneud ar gyfer pob un o'r diwydiannau ond, yn gyffredinol, bydd atebion yn dibynnu ar y testunau a astudiwyd. Ni fwriedir i'r rhestri fod yn rhagnodol.

Gall trafod rheoleiddio gynnwys rhai neu bob un o'r canlynol:

- Gwybod am y fframwaith rheoleiddio ar gyfer y diwydiant dewisol
- Enghreifftio'r fframwaith rheoleiddio mewn perthynas â'r tri phrif destun
- Gall trafod testunau gynnwys trafod y manylion a'r rhesymu dros y rheoleiddio.
- Gall rhai testunau fod y tu allan i fframweithiau rheoleiddio a gall rhai testunau fod wedi gweithio o fewn y fframwaith rheoleiddio.
- Efallai bydd atebion Lefel 4 soffistigedig yn trafod sut yr effeithir ar destunau gan yr angen i weithio o fewn fframwaith rheoleiddio.

Mae'r tabl isod yn dangos rhai pwyntiau generig y gallai ymgeiswyr eu gwneud – ni fwriedir i'r rhestr hon fod yn rhagnodol.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **TELEDU:**<br>• Polisïau sianel<br>• OFCOM<br>• Cod darlledu<br>• Bwrdd y BBC<br>• Cyfrifoldebau cyfreithiol<br>• Materion trothwy | **RADIO:**<br>• Polisïau sianel<br>• OFCOM<br>• Cod darlledu<br>• Bwrdd y BBC<br>• Cyfrifoldebau cyfreithiol | **FFILM:**<br>• Dosbarthiad BBFC<br>• Gwahanol reoleiddwyr mewn gwledydd eraill<br>• Tystysgrifau DVD | **CERDDORIAETH:**<br>• Hunanreolaeth ar y cyfan<br>• Cyfyngiadau cyfreithiol o ran hawlfraint, trwyddedu, llwytho i lawr<br>• Sticeri cynghori rhieni |
| **PAPURAU NEWYDD:**<br>• Hunanreolaeth<br>• Comisiwn Cwynion y Wasg (PCC)<br>• Leveson<br>• Codau ymarfer – eang<br>• 'er lles y cyhoedd'<br>• Cyfyngiadau cyfreithiol e.e. deddfau enllib | **CYLCHGRONAU:**<br>• Hunanreolaeth<br>• Comisiwn Cwynion y Wasg (PCC)<br>• Codau ymarfer – eang<br>• Monitro cwynion ac yn ymateb iddyn nhw<br>• Cyfyngiadau cyfreithiol e.e. deddfau enllib | **HYSBYSEBU:**<br>• Hunanreolaeth<br>• Awdurdod Safonau Hysbysebu (ASA)<br>• Gweithredu yn ôl y cod CAP<br>• Clearcast – gwasanaeth cyn-ddarlledu<br>• Cyfyngiadau cyfreithiol | **GEMAU CYFRIFIADUR:**<br>• BBFC a PEGI<br>• BBFC yn dosbarthu unrhyw gêm sy'n portreadu trais, rhyw ayb a gall roi dosbarthiad 15 neu 18<br>• Gemau eraill yn cael eu rheoleiddio gan system PEGI – dosbarthiad pan-Ewropeaidd gwirfoddol |

© WJEC CBAC Cyf.

**B3. I ba raddau mae eich tri phrif destun yn apelio at gynulleidfaoedd gwahanol?**
**[30]**

Mae'r cwestiwn hwn yn gofyn *i ba raddau* – mae hyn yn caniatáu i'r ymgeiswyr lunio eu barn eu hunain. Marciwch ar sail haeddiant.

Gall trafod i ba raddau mae testunau'n apelio at gynulleidfaoedd gwahanol gynnwys rhai neu bob un o'r canlynol:

- Sut mae rhai testunau'n cael eu llunio'n fwriadol i apelio at gynulleidfaoedd gwahanol.
- Sylweddoli nad yw pob testun yn apelio at gynulleidfaoedd gwahanol.
- Bydd yr ymgeiswyr gorau yn sylweddoli bod y mater ydy testunau'n apelio at gynulleidfaoedd gwahanol yn dibynnu ar sut maen nhw'n cael eu llunio a bod hyn yn wahanol i'r ffordd y gall testunau gael eu dehongli'n wahanol gan gynulleidfaoedd gwahanol.
- Bydd ymgeiswyr Lefel 4 soffistigedig yn gallu trafod yn hyderus i ba raddau mae eu testunau nhw wedi'u llunio i apelio at gynulleidfaoedd gwahanol a byddan nhw'n debygol o sylweddol arwyddocâd (masnachol) hynny.

Isod mae rhai pwyntiau generig y gallai ymgeiswyr eu gwneud yn nhermau apelio - ni fwriedir i'r rhestr fod yn rhagnodol.

| **TELEDU:** | **RADIO:** | **FFILM:** | **CERDDORIAETH:** |
|---|---|---|---|
| • Cynnwys naratif ac enigmâu<br>• Genre<br>• Amserlennu<br>• Cymeriadau, actorion, perfformwyr<br>• Tôn, arddull, technegau cyflwyno<br>• Cysylltu â'r cyfryngau cymdeithasol | • Genre<br>• Amserlennu<br>• Rhestri chwarae<br>• Arddull, technegau cyflwyno<br>• Hyblygrwydd dulliau gwrando | • Cynnwys naratif<br>• Genre<br>• Dosbarthiad a marchnata<br>• Cymeriadau, actorion<br>• Cinematograffeg<br>• Marchnata<br>• Gwerthoedd cynhyrchu<br>• Profiad gwylio | • Genre ac arddull gerddorol<br>• Perfformiad<br>• Fideos, gwaith celf ayb.<br>• Cyhoeddusrwydd<br>• Agwedd<br>• Amlygrwydd<br>• Gwefannau, twitter, safleoedd rhwydweithio cymdeithasol |
| **PAPURAU NEWYDD:**<br>• Genre<br>• Cynnwys<br>• Hunaniaeth ac arddull<br>• Defnyddio penawdau, delweddau ayb.<br>• Iaith<br>• Fersiynau ar-lein, apps ffonau symudol, twitter ayb.<br>• Ymgyrchoedd hyrwyddo ayb. | **CYLCHGRONAU:**<br>• Genre<br>• Delweddau, pobl enwog<br>• Defnyddio lliw<br>• Llinellau'r clawr<br>• Dull cyflwyno<br>• Cynnwys<br>• Fersiynau ar-lein | **HYSBYSEBU:**<br>• Strwythur – defnyddio naratif ayb.<br>• Gosodiad a dyluniad<br>• Lleoliad<br>• Defnyddio pobl enwog<br>• Tactegau dychryn<br>• Cerddoriaeth<br>• Hiwmor<br>• Atgyfnerthu brand | **GEMAU CYFRIFIADUR:**<br>• Genre – math o gêm<br>• Dull chwarae<br>• Naratif a chynnwys<br>• Graffeg<br>• Chwarae ar-lein – chwaraewyr lluosog<br>• Heriau a chanlyniadau |

© WJEC CBAC Cyf.

**B4. 'Mae cynulleidfa fyd-eang yn bwysig i ddiwydiannau cyfryngau.' Trafodwch y gosodiad hwn gan gyfeirio at eich tri phrif destun. [30]**

Mae'r cwestiwn hwn yn gwahodd ymateb sy'n rhoi safbwynt. Gall ymgeiswyr ddadlau (yn gywir ac yn ddeallus), er bod cynulleidfaoedd byd-eang yn bwysig i'w diwydiant (e.e. ffilm), na fwriadwyd y testun o'u dewis ar gyfer cynulleidfa fyd-eang. Bydd angen i'w trafodaeth gael ei chanolbwyntio felly ar y rheswm pam mae'r gynulleidfa leol/genedlaethol yn allweddol i'r testun penodol hwnnw. Fodd bynnag, dylai peth dealltwriaeth o natur fyd-eang y rhan fwyaf o ddiwydiannau'r cyfryngau fod yn amlwg yn atebion ymgeiswyr y graddau canolig ac uwch.

Gall trafod i ba raddau mae cynulleidfa fyd-eang yn bwysig i ddiwydiannau cyfryngau gynnwys rhai neu bob un o'r canlynol:

- Mae cynulleidfaoedd byd-eang yn debygol o fod yn bwysig i ddiwydiannau cyfryngau er mwyn sicrhau hyfywdra economaidd cynhyrchu cyfryngol
- Sylweddoli bod testunau'r cyfryngau, beth bynnag yw eu hapêl i gynulleidfaoedd, yn dibynnu ar gynhyrchu elw.
- Mae rhai testunau wedi'u llunio'n fwy amlwg i gyrraedd cynulleidfa fyd-eang na'i gilydd a thrwy hynny yn dangos angen y diwydiant i gyrraedd cynulleidfa fyd-eang.
- Efallai bydd ymgeiswyr Lefel 4 soffistigedig yn sylweddoli bod rhai diwydiannau'n cyrraedd cynulleidfaoedd byd-eang drwy gyfundrefnau wedi'u hintegreiddio'n llorweddol yn hytrach na thrwy gynhyrchion unigol (testunau'r cyfryngau).

© WJEC CBAC Cyf.

CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd  CF5 2YX
Ffôn:  029 2026 5000
Ffacs:  029 2057 5994
E-bost:  arholiadau@cbac.co.uk
gwefan:  www.cbac.co.uk

ⓗ WJEC CBAC Cyf.